Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llywodraethu Gwybodaeth:

Trefniadau ar gyfer Rheoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Medi 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom i post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio'r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Prif Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad 4

Ffeithiau a ffigurau allweddol 6

Ein canfyddiadau 7

Argymhellion 12

Atodiadau 13

1 Ynglŷn â'n gwaith 14

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Gwnaethom adolygu sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar lywodraethu, systemau, hyfforddiant, a monitro perfformiad. Gwnaethom asesu a yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth cyfreithiol yn effeithiol.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi mynediad cyhoeddus at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn helpu i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn effeithiol yn sicrhau mynediad amserol at wybodaeth, yn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

3 Mae gan y Cyngor fframwaith strategol wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi diweddaru rhai o'i bolisïau llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys ei Bolisi Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Fodd bynnag, mae adolygiadau anghyson o bolisïau eraill, hyfforddiant staff cyfyngedig, a defnyddio dwy system cofnodi ar wahân yn lleihau effeithlonrwydd. Mae’r perfformiad Rhyddid Gwybodaeth yn is na meincnod 90% Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gyda dim ond 54% o'r ceisiadau wedi'u hateb o fewn y terfyn amser 20 diwrnod yn 2024–25. Nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi cofnod datgeliadau ac nid yw’n defnyddio meincnodi, sy'n cyfyngu ar ei allu i wella perfformiad.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

4 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad sy'n ymwneud ag asesu systemau, gwella hyfforddiant, a chyflwyno meincnodi.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- **2022–23:**
  Cafwyd 1,027 o geisiadau am Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol
  Cafodd 561 (54.62%) ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith

- **2023–24:**
  Cafwyd 1,097 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol
  Cafodd 540 (49.23%) ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith

- **2024–25:**
  Cafwyd 1,193 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol
  Cafodd 644 (53.98%) ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith

- **Dechrau 2025–26 (hyd at 27 Mai 2025):**
  Cafwyd 170 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol
  Cafodd 29 (17.06%) ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adroddiad Blynyddol yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth 2024-25.

# Ein canfyddiadau

## Mae gan y Cyngor fframwaith wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond nid yw'n cyflawni cydymffurfiaeth amserol eto

5 Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth wedi'i ddiffinio'n glir. Mae ganddo bolisi Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol cyfredol (a gafodd ei adolygu ym mis Mai 2025 a'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2025), Cynllun Cyhoeddi gweithredol, a model gweithredu clir lle mae Uned Llywodraethu Gwybodaeth (IGU) ganolog yn gweithio gyda Swyddogion Cydymffurfio Llywodraethu Gwybodaeth (IGCO) ym mhob gwasanaeth i gydlynu ceisiadau.

6 Mae Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn cael ei gynnal gan yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth (IGU). Mae'r Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Data yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys rhai yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), y Swyddog Diogelu Data (DPO), yr Arweinwyr Diogelu Data Gwasanaeth, a'r Pennaeth TG a Thrawsnewid Digidol. Mae'r polisi yn pwysleisio bod angen i'r holl staff rannu cyfrifoldeb am gydymffurfio.

7 Mae gan y Cyngor fecanweithiau ar waith sy'n cefnogi tryloywder wrth ymdrin â'i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae gan y Cyngor broses glir o ran sut i ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ac i staff ar y fewnrwyd. Mae'r broses yn cael ei hategu gan ganllawiau penodol, sy'n cynnwys manylion cyswllt petai angen mwy o wybodaeth ar rywun. Yn ddiweddar, mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth wedi cyflwyno adroddiad wythnosol ar gyfer Penaethiaid Gwasanaethau a'r Swyddogion Cydymffurfio Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n tynnu sylw at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth hwyr, sy'n gwella gwelededd.

8 Fodd bynnag, mae yna wendidau ochr yn ochr â'r fframwaith hwn:

- Mae polisïau llywodraethu gwybodaeth cysylltiedig ar gylchoedd adolygu anghyson. Er enghraifft, adolygwyd y Polisi Diogelu Data ddiwethaf yn 2021, gydag adolygiad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ebrill 2024 nad yw wedi digwydd. Nid oes dyddiad ar gyfer adolygu'r Weithdrefn Digwyddiad a Thorri Data.
- Nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi cofnod datgeliadau. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol, mae Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell hyn fel arfer da ar gyfer cryfhau tryloywder a dysgu o geisiadau sy’n codi sawl gwaith.

9 Er gwaethaf bod ganddo fframwaith wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, mae gan y Cyngor hanes o fethu terfynau amser Rhyddid Gwybodaeth. Yn 2024-25, roedd ychydig dros hanner y ceisiadau yn bodloni'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod. O gyfuno hyn ag adolygiadau polisi anghyson, gall fethu’r terfynau amser hyn gynyddu'r risg o beidio â chydymffurfio ac yn gwneud y Cyngor yn agored i gwynion. Mae'r diffyg cofnod datgeliadau yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o anghenion gwybodaeth y cyhoedd. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i ddysgu o dueddiadau yn y ceisiadau sy’n cael eu cyflwyno a gall wanhau ymrwymiad y Cyngor i lywodraethu gwybodaeth yn gadarn, a thryloywder.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio system ganolog i gofnodi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ond nid yw'n darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno

10 Mae'r Cyngor yn prosesu ei waith achos Rhyddid Gwybodaeth gan ddefnyddio system ganolog (Meritec), sy'n cael ei ategu gan ffolderi diogel wedi’u rhannu. Mae hyn yn rhoi platfform ar gyfer trin ceisiadau a storio ymatebion. Mae mynediad i'r system yn cael ei reoli gan ganiatâd defnyddwyr a phrotocolau TG.

11 Nid yw'r system ganolog yn adnodd Rhyddid Gwybodaeth pwrpasol, ac nid oes ganddo'r ymarferoldeb angenrheidiol i ddarparu'r holl wybodaeth reoli sydd ei hangen ar yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth ddefnyddio taenlen bwrpasol, gymhleth i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arni. Ar hyn o bryd, dim ond un swyddog yn y Cyngor sy’n deall y daenlen hon yn llwyr. Mae'r ddibyniaeth hon ar daenlen gymhleth, y mae ond un unigolyn yn ei deall, yn creu pwynt methiant. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddyblygu ac o wallau data.

12 Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi tynnu sylw at y dyblygu hwn ac wedi awgrymu adolygu'n ffurfiol werth ac addasrwydd y system ganolog. Nid yw'r adolygiad ffurfiol hwn wedi digwydd eto.

13 Yn ogystal â chofnodi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar system ganolog Meritec, mae'r Polisi Rhyddid Gwybodaeth ar hyn o bryd yn caniatáu i feysydd gwasanaeth hefyd gael eu cofnodi'n lleol. Gall cael y dewis ar gyfer cofnodi ceisiadau Rhyddid Gwasanaeth yn lleol, ar lefel gwasanaeth ac yn ganolog, gynyddu'r risg o ddyblygu a bod perfformiad data anghywir yn cael ei adrodd i uwch-arweinwyr.

14 Mae'r Cyngor yn cydnabod terfynau ei systemau presennol. Penododd Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Medi 2024 i helpu gyda’r llwyth gwaith ac i wella perfformiad. Mae'r Cyngor yn credu bod y gallu ychwanegol hwn wedi helpu i wella cyfraddau ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o 49% yn 2023–24 i 54% yn 2024–25.

## Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth wedi'i dargedu ar gyfer swyddogion allweddol, ond nid oes ganddo raglen ehangach i ddatblygu ymwybyddiaeth weithredol

15 Mae'r Cyngor yn cynnig hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth anffurfiol ar gyfer tîm o swyddogion wedi’u nodi, sy'n ymdrin â cheisiadau. Mae hefyd yn darparu sesiynau unigol a chyfarfodydd grŵp gyda'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i'w dîm. Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth (IGU) wedi cyflwyno model partner busnes i gryfhau cysylltiadau ar draws meysydd gwasanaeth. Yn ddiweddar, mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth wedi dychwelyd i'w gyflenwad llawn ac ar hyn o bryd mae'n archwilio pa hyfforddiant achrededig sydd angen arno i’w ddarparu i'r tîm newydd.

16 Nid oes rhaglen hyfforddi Rhyddid Gwybodaeth strwythuredig ar gyfer y gweithlu ehangach. Nid yw Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni cynefino ac nid oes system i dracio dysgu sy'n gysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r e-ddysgu gorfodol 'Diogelu Gwybodaeth' yn canolbwyntio ar ofynion diogelu data ond nid yw'n ymdrin yn benodol â Rhyddid Gwybodaeth.

17 Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth wedi ystyried ffyrdd o wella ymwybyddiaeth, gan gynnwys modiwl e-ddysgu Rhyddid Gwybodaeth, cyflwyniadau diogelwch a chanllawiau ar gyfer y fewnrwyd. Fodd bynnag, heb hyfforddiant a monitro ehangach, mae sicrwydd cyfyngedig bod dealltwriaeth dda o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth ar draws y Cyngor. O ganlyniad, efallai na fydd llawer o staff yn deall yn iawn sut i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, defnyddio eithriadau’n gywir, neu gwrdd â'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod. Gallai'r bwlch gwybodaeth hwn arwain at wallau, llai o gydymffurfiaeth, a cholli ymddiriedaeth y cyhoedd.

## Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad Rhyddid Gwybodaeth ond mae diffyg meincnodi yn lleihau effeithiolrwydd

18 Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar ei berfformiad Rhyddid Gwybodaeth can gynnwys cyfanswm y ceisiadau, amseroedd ymateb a chanlyniadau. Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth yn adrodd ar yr wybodaeth hon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (yn flynyddol); y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth (yn chwarterol); grŵp Swyddogion Cydymffurfio Llywodraethu Gwybodaeth (yn chwarterol); ac i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (chwarterol, gan ddechrau ym mis Awst 2025). Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth yn rhannu adroddiadau wythnosol ar achosion hwyr gydag Swyddogion Cydymffurfio Llywodraethu Gwybodaeth a Phenaethiaid Gwasanaethau i wella gwelededd ac atebolrwydd. Yn ddiweddar, mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor wedi targedu camau gweithredu i ymdrin â'r perfformiad Rhyddid Gwybodaeth.

19 Nid yw'r Cyngor yn ymgymryd â meincnodi ffurfiol gyda chyrff eraill ar berfformiad Rhyddid Gwybodaeth. Nid oes amserlen ar gyfer unrhyw gynllun gwella i godi perfformiad o lefelau hanesyddol (49-54%) tuag at darged 90% Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Nid yw'r Cyngor yn cymharu perfformiad Rhyddid Gwybodaeth ar draws gwasanaethau. Heb feincnodi, ni all y Cyngor dynnu sylw at arfer da, ac mae hynny'n cyfyngu ar ei allu i dargedu meysydd i'w gwella a gwneud penderfyniadau strategol gwybodus.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor asesu gwerth a defnydd system Meritec o ran y cyfyngiadau a’r dyblygu ymdrech a nodwyd (yn unol â thrydydd adolygiad dilynol y Cyngor a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol).

**A2** Dylai'r Cyngor sefydlu hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth ffurfiol ar gyfer staff sy'n ymdrin â cheisiadau. Dylai hefyd ddarparu deunyddiau codi ymwybyddiaeth a siart lif syml sy'n esbonio proses Rhyddid Gwybodaeth i bob gweithiwr arall. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth a'i bwysigrwydd a'r gofynion cyfreithiol ar draws y Cyngor.

**A3** Dylai'r Cyngor ehangu ei broses Rhyddid Gwybodaeth drwy ychwanegu meincnodi mewnol ac allanol. Bydd cymharu perfformiad ar draws gwasanaethau a gyda chyrff cyhoeddus eraill yn helpu i nodi meysydd i'w gwella, tynnu sylw at arfer da, a chefnogi gwneud penderfyniadau gwell.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Gwnaethom adolygu trefniant y Cyngor ar gyfer rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol i ddeall sut mae ceisiadau yn dod i law, sut y maent yn cael eu prosesu a sut y mae’r sefydliad yn ymateb iddynt drwyddi draw.

Cynhaliwyd yr archwiliad o bell. Gwnaethom adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau gyda swyddogion allweddol. Roedd y cyfweledigion yn cynnwys:

- Pennaeth Archwilio a Chaffael
- Aelod Cabinet dros Archwilio, Polisi a Pherfformiad
- Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a Swyddog Diogelu Data

Cynhaliwyd gwaith maes rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025, fel rhan o flwyddyn archwilio 2024-25 y Cyngor.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Gofynnom : **A oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i reoli'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae'n eu cael yn effeithiol?**

Gwnaethom hefyd ddefnyddio cwestiynau atodol i archwilio i hyn yn fanylach. Nodwyd y rhain yn y **briff prosiect** a wnaeth lywio ein gwaith archwilio.

Gwnaethom asesu perfformiad mewn pedwar maes allweddol:

- **Llywodraethu a Chydymffurfiaeth** – A oes strwythurau, rolau a chyfrifoldebau ar waith i gefnogi cydymffurfio â Rhyddid Gwybodaeth?

- **Rheoli Gwybodaeth** – A yw systemau a phrosesau'n effeithiol ar gyfer storio a rheoli gwybodaeth Rhyddid Gwybodaeth?
- **Hyfforddi Staff** – Pa hyfforddiant a ddarperir sy'n gysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth a pha mor effeithiol ydyw?
- **Monitro ac Adrodd** – Sut mae'r Cyngor yn tracio perfformiad Rhyddid Gwybodaeth ac yn rhannu gwersi y mae wedi'u dysgu?

## Meini prawf

Gwnaethom seilio ein hasesiad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) 2004**.
- **Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**, gan gynnwys Cod Ymarfer Adran 45 a'r Cynllun Cyhoeddi enghreifftiol.
- **Cyhoeddiadau'r Llywodraeth,** megis Hints for Practitioners Handling FOI a EIR Requests (Ebrill 2008).
- **Safonau proffesiynol** ym maes ymarfer Rhyddid Gwybodaeth gan gynnwys disgwyliadau ynghylch llywodraethu, hyfforddiant, a rheoli achosion.

Gwnaeth y ffynonellau hyn ein helpu ni i ddefnyddio barn arbenigol ac adlewyrchu disgwyliadau arfer da ar gyfer cyrff cyhoeddus.

# Dulliau

Defnyddiwyd dau ddull gennym i gasglu tystiolaeth:

- **Adolygu dogfennau** – Fe wnaethom adolygu dogfennau mewnol, gan gynnwys polisïau rhyddid gwybodaeth, canllawiau, adroddiadau perfformiad, a chofnodion hyfforddiant. Mae'r rhain wedi ein helpu ni i ddeall trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ei weithrediadau a'i gydymffurfiaeth.

- **Cyfweliadau** – Gwnaethom gynnal cyfweliadau strwythuredig gyda staff sy'n ymwneud â goruchwylio a rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan gynnwys uwch swyddogion ac aelodau o'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r trafodaethau hyn wedi ein helpu ni i ddeall sut mae polisïau a gweithdrefnau yn gweithredu'n ymarferol.

Roedd ein dadansoddiad yn ansoddol ac yn werthusol. Fe wnaethom driongli tystiolaeth o ddogfennau a chyfweliadau i ffurfio'n canfyddiadau archwilio. Roedd yr archwiliad yn seiliedig ar ddogfennau a oedd ar gael a nifer cyfyngedig o gyfweliadau ag aelodau o staff.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnyddio adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.wales

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.